Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership Board

MEYSYDD BLAENORIAETH PLANT A PHOBL IFANC:

# Llety ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal

**Gwella argaeledd ac amrywiaeth gwasanaethau cartrefi preswyl plant a darparu llety o fewn y sir mor eang â phosibl.**

**Byddwn ni'n annog partneriaid i gyflwyno ceisiadau am gyfalaf er mwyn gallu datblygu mwy o gartrefi llety preswyl addas sy'n ateb anghenion ar draws y rhanbarth. Byddwn ni hefyd yn annog partneriaid i ddatblygu cartrefi sy'n symud i fodel gofal nid-er-elw, drwy fodloni'r 'agenda dileu elw' a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.**





## BETH SY'N BWYSIG I BLANT A PHOBL IFANC?

Mae plant a phobl ifanc yn teimlo ei bod hi'n bwysig mynd y tu hwnt i fod yn rhan o 'system' i sefydlu ymdeimlad o berthyn yn llawn.

Gall datblygu ymdeimlad o gymuned eu helpu i deimlo eu bod nhw'n perthyn yn rhywle.

Hoffen nhw gael eu lle eu hunain sy'n cynrychioli pwy ydyn nhw fel person ac, yn sgil hyn, cael cyfleoedd i feithrin cyfeillgarwch cryf.

Hoffen nhw hefyd gael mynediad i gartrefi o ansawdd da ac opsiynau trafnidiaeth mwy fforddiadwy a hygyrch.

## BETH FYDDWN NI'N EI WNEUD GYDA'N GILYDD:

- Cefnogi'r agenda Dileu Elw trwy'r **Rhaglen Gyfalaf Ranbarthol**, trwy weithio gyda sefydliadau 'nid-er-elw' i ddatblygu cartrefi.

## PA WAHANIAETH FYDD HYN YN EI WNEUD?

- Cynyddu digonolrwydd lleoliadau addas ar gyfer plant a phobl ifanc yn y rhanbarth.

## DYWEDODD POBL

"Pe bawn i'n gallu gwneud newid, beth fyddai hwnnw? Mwy o liw ar y stryd, mwy o gymuned, tai o ansawdd gwell. Ar hyd strydoedd llydan â choed bob ochr, gyda theulu a ffrindiau, fe welwch chi fi."